# P-04-497 Cynllun Tai Cenedlaethol i Raddedigion

Geiriad y ddeiseb:
Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gefnogi cynllun i adeiladu Tai ar gyfer Graddedigion.

Gwybodaeth ategol:
Manylion am y Cynlluniau Tai Cenedlaethol Arfaethedig i Raddedigion

Cyfres chwyldroadol o Henebion Cenedlaethol a ddisgrifir gennyf fan hyn, ac mae gan yr adeiladau hyn swyddogaeth sy'n effeithio ar dwf cymdeithasol craidd. Tyrau o gyfleoedd a chanolfannau o ailddatblygu; y Cynlluniau Tai Cenedlaethol i Raddedigion yw'r agwedd fwyaf real ar y byd fel y bydd yn y dyfodol. Wedi'u hadeiladu yn yr un dull â'n canolfannau siopa a'n hysbytai mwyaf modern; mae'r campweithiau hyn yn ysblennydd ac yn gyraeddadwy i lawer iawn o bobl. Rwy'n dychmygu ystadau o adeiladau sydd cyfuwch ag wyth neu ddeuddeg llawr. Wedi'u hadeiladu o fframiau dur; mae eu ffurf yn llyfn a'u swyddogaeth yn gadarn. Gall y trigolion fwynhau bwyd a gwin da, coffi, ffasiwn a dawnsfeydd. Y cyfan o fewn ffiniau a chyfleusterau eu hadeiladau hynod.

Mae'r lefelau stryd isaf yn cynnwys strydoedd, canolfannau siopa, a rhesi o dai. Y syniad yma yw bod y datblygiadau modern iawn hyn yn well nag ymdrechion blaenorol i greu tai torfol, a hynny am fod cyfleusterau siopa ac adloniant yn rhan ohonynt.  Mae 'mannau Canfod Swyddi i Raddedigion' ar lefel y brif stryd yn cynnig mwy na chyngor ar yrfaoedd yn unig. Mae'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau yno yn hwyluso dealltwriaeth lawn o'r union raddau sydd ar y Gofrestr Breswylwyr. Gwaith y Rheolwyr yn y 'mannau Canfod Swyddi i Raddedigion' wedyn yw cynorthwyo graddedigion i ganfod eu lle yn yr economi. Gellir neilltuo lle i wasanaethau proffesiynol eraill yn y cynlluniau pensaernïol, a fyddai'n hwyluso'r gwaith o sefydlu busnesau. Gellir cynnull tasgluoedd amlddisgyblaethol i weithio'n uniongyrchol ar y materion sydd fwyaf perthnasol i sefydliad myfyrwyr blaengar.

Bydd lle i fusnesau wasanaethu a chyflogi'r preswylwyr yn strwythurau'r adeiladau mwyaf. Mae'r ddwy neu dair lefel isaf yn cynnwys nifer o unedau, gan gynnwys siopau bwyd, caffis, bariau, ac ati. Mae lle yn yr adeiladau hefyd ar gyfer swyddfeydd masnachol/ sifil i dasgluoedd o fyfyrwyr arbenigol a chyrff proffesiynol weithio ar hyrwyddo'r canolfannau o ran yr economi. Caiff yr un dulliau cynllunio ac adeiladu a ddefnyddir i lunio'r adeiladau ar gyfer meysydd economaidd allweddol fel ffasiwn a'r cyfryngau arwain at well lefelau cyflogaeth.

Mae'n bwysig bod y sector Graddedigion yn cael cefnogaeth gan y Llywodraeth os yw'r arian y mae'r Llywodraeth wedi'i  fenthyca dal yn ddilys. O ran y Llywodraeth yn ariannu rhent y Graddedigion sy'n byw yno, mae'r system yn llawer mwy diogel o ran colli arian os yw'r Llywodraeth hefyd yn Landlord.  Mae'r Cynlluniau Tai Cenedlaethol i Raddedigion yn gampweithiau

cymdeithasol-wleidyddol a all brofi eu hunain, ac a fydd yn profi eu hunain, wrth i'r wlad hon a gwledydd yn fyd-eang edrych tua'r dyfodol.

Yn olaf, rwy'n awgrymu byd ar gyfer graddedigion a gaiff ei reoli'n syml a llyfn, fel bod pawb sy'n llwyddo yn y Brifysgol yn dod o hyd i le priodol mewn cymdeithas sy'n datblygu. Mae hyn, yn syml, yn golygu stiwardiaeth ddoeth ar gymwysterau, a'u cyfeirio at fusnes.

Prif ddeisebydd: GWYRDDISM

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 24 Medi 2013